SESIWN 3: SYNIADAU MAWR MEWN DYLUNIO GRAFFEG

Ystod oedran: 11-14 oed

Amlinelliad

Yn y sesiwn hwn, bydd y dysgwyr yn clywed am bedwar syniad dylunio mawr sydd wedi dylanwadu ar ddylunwyr o'r ugeinfed ganrif hyd heddiw. Trwy drafod a chofnodi effaith y technegau hyn, bydd y dysgwyr yn dechrau gwerthfawrogi pwysigrwydd cynllunio a defnyddio confensiynau yn y broses ddylunio. Yna byddant yn rhoi'r ddamcaniaeth hon ar waith trwy ailfeddwl ac addasu eu dyluniadau cychwynnol o'r sesiwn diwethaf.

Amcanion dysgu

Bydd y dysgwyr yn gwneud y canlynol:

- Datblygu dealltwriaeth feirniadol o dueddiadau dylunio hanesyddol sy'n parhau i ddylanwadu ar ddylunwyr ffeithluniau heddiw
- Arbrofi â phictogramau, caligramau, lliwiau cyflenwol a/neu liwiau tryloyw sy'n gorgyffwrdd.

Deilliannau dysgu

Bydd y dysgwyr yn dysgu:

- Adnabod amrywiaeth o ddewisiadau dylunio technegol a dadansoddi eu heffaith ar ystyr a/neu apêl esthetig y gweithiau a restrwyd ar Daflen Gweithgaredd 3.1
- Mireinio eu dyluniadau 1% o'r sesiwn diwethaf trwy fabwysiadu un neu ragor o'r dewisiadau hyn.

Cwestiynau allweddol

- Pa syniadau a thechnegau dylunio y mae dylunwyr ffeithluniau heddiw yn eu benthyca o'r gorffennol?
- Pa un o'r rhain allwn i ymarfer eu defnyddio er mwyn gwella'r dyluniad a wnes i yn y sesiwn diwethaf?

Adnoddau

- Sioe sleidiau Sesiwn 3
  - Argraffu'r tudalennau nodiadau
- Canllaw i Athrawon Sesiwn 3, gan gynnwys:
  - Taflen Gweithgaredd 3.1 – copi i bob dysgwr
  - Taflen Gweithgaredd 3.1 - Copi'r Athro
- Pensiliau lliwio neu gyfrifiadur â mynediad at argraffydd ar gyfer pob dysgwr (ar gyfer y gweithgaredd ymestyn dewisol yn y golofn olaf ar Daflen Gweithgaredd 3.1).

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cyn y sesiwn

- Argraffwch ddigon o gopïau o Daflen Gweithgaredd 3.1 ar gyfer gwaith unigol.
- Gosodwch y taflunydd/sioe sleidiau.
- Efallai y byddai athrawon sydd â chefndir mewn dylunio graffeg yn hoffi ychwanegu rhagor o enghreifftiau o dechnegau dylanwadol ar ddiwedd y sioe sleidiau cyn rhannu.

Gweithgaredd 3.1

Syniadau mawr mewn dylunio graffeg (Sioe sleidiau a thaflen gweithgaredd)

- Bydd llawer o'r dysgwyr wedi sylwi'n barod ar ffyrdd gweledol trawiadol o gyfleu data ar y Rhyngrwyd a/neu mewn papurau newydd. Pwrpas y sioe sleidiau hon yw:
  - Cadarnhau eu geirfa weledol er mwyn iddynt allu dechrau cynhyrchu dyluniadau ffeithluniau mwy soffistigedig.
  - Gwnewch yn siŵr eu bod yn deall bod gorffeniad glân a chain ffeithluniau cyfoes yn seiliedig ar broses fedrus (a maith yn aml) o ddewis, syntheseiddio a symleiddio ystod o gonfensiynau dylunio traddodiadol.

- Y pedwar syniad dylunio mawr sy'n cael eu trafod yn y sioe sleidiau (sleidiau 18-22) yw:
  1. Pictogramau
  2. Caligramau
  3. Lliwiau cyflenwol
  4. Lliwiau tryloyw sy'n gorgyffwrdd

  - Yn ystod neu yn dilyn y drafodaeth ar bob un o'r rhain, rhowch amser i'r dysgwyr gyfrannu eu syniadau a'u harsylwadau eu hunain ar Daflen Gweithgaredd 3.1. Gellir defnyddio Copi'r Athro o'r daflen gweithgaredd a thudalennau nodiadau'r sioe sleidiau fel canllaw pellach i'r dysgwyr os oes angen.

Gweithgaredd 3.2

Asesu'r dyluniad 1%

- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau llai i asesu dyluniadau eu cyfoedion o'r sesiwn diwethaf ar sail y meini prawf a ganlyn:
  - A yw'r data anghydraddoldeb yn hawdd eu deall?
  - A ellid lleihau rhywfaint o'r testun, ei dynnu ymaith neu osod deunydd gweledol yn ei le?
  - Pa rai o'r pedwar Syniad Mawr o'r sioe sleidiau fyddai'n gwella'r dyluniad fwyaf? Sut?

Gweithgaredd 3.3

Mireinio'r dyluniad 1%

- Yn dilyn hyn bydd angen i'r dysgwyr gael amser (a darn newydd o bapur efallai) i adolygu eu dyluniadau er mwyn ymgorffori'r syniad dylunio o'u dewis o'r pedwar a gyflwynwyd iddynt yn y sioe sleidiau. Fel yn achos pob tasg ymarferol, mae'n bwysig bod yr athro/athrawes yn symud o gwmpas y dosbarth bryd hyn ac yn monitro cynnydd

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

pob dysgwr. Gall y maglau cyffredin gynnwys gwneud y dyluniad yn rhy gymhleth i'r graddau lle nad yw'r ystadegyn sylfaenol yn glir mwyach a/neu ymrwymo i feintiau a siapiau newydd yn rhy fuan â llinellau trwm yn hytrach nag ysgafn. Gallai defnyddio taflunydd i ddangos sleid 23 helpu i gadw ffocws y dysgwyr.

Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n anos:
  - Gellid gofyn i'r dysgwyr feddwl am eu meini prawf asesu eu hunain yng Ngweithgaredd 3.2. Yna gellid hefyd eu herio yng Ngweithgaredd 3.3 i ymgorffori mwy nag un o'r syniadau dylunio a drafodwyd yn y sioe sleidiau.

Sylwer: Mae ffynonellau gwybodaeth a syniadau ar gyfer gwahaniaethu i'w gweld yn nodiadau'r sioe sleidiau.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Taflen gweithgaredd 3.1

	Dylunydd	**Teitl y dyluniad** *(trefn gronolegol)*	Pa **ddewis** o graffigyn y mae'r dylunydd wedi'i wneud?	Pa **effaith** y mae hyn wedi'i chael?	**Estyniad: Lluniadwch** neu **argraffwch** adran berthnasol o'r dyluniad wedi'i thocio
1	Lester Beall	*Rural Electrification Administration Posters Series,* 1934			
2	Otto Neurath	*Structure of Society in Vienna,* 1938			
3	Guillaume Apollinaire	*La Tour Eiffel,* 1918			
4	Fanette Mellier	*La Fête de la Musique*, 2009			

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Taflen Gweithgaredd 3.1 Copi'r Athro

	Dylunydd	**Teitl y dyluniad** *(trefn gronolegol)*	Pa **ddewis** o graffigyn y mae'r dylunydd wedi'i wneud?	Pa **effaith** y mae hyn wedi'i chael?	**Estyniad: Lluniadwch** neu **argraffwch** adran berthnasol o'r dyluniad wedi'i thocio
1	Lester Beall	*Rural Electrification Administration Posters Series,* 1934	Blociau lliw cyflenwol (gyferbyn ar yr olwyn liwiau, e.e. coch a gwyrdd) wedi'u gosod yn ymyl ei gilydd	Er mwyn ymddangos fel pe baent yn dirgrynu a mynnu sylw	Blociau lliw poeth/oer 
2	Otto Neurath	*Structure of Society in Vienna,* 1938	Pictogram: Delweddau syml yn defnyddio dim ond llinellau a blociau du a gwyn	Er mwyn cael llai o destun; creu un iaith weledol y mae pawb yn ei deall	Dyn sy'n gweithio
3	Guillaume Apollinaire	*La Tour Eiffel,* 1918	Caligram: Mae'r llythrennau'n cydffurfio â siâp y gellir ei adnabod (o'r hen Roeg *kallos* = harddwch a *gramma* = rhywbeth sy'n cael ei ysgrifennu)	Er mwyn lleihau'r angen am deitl neu labeli ar wahân	Siâp ffisegol strwythur
4	Fanette Mellier	*La Fête de la Musique*, 2009	Lliwiau tryloyw sy'n gorgyffwrdd	I roi'r argraff o ddyfnder	Melyn y tu ôl neu o flaen

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.